# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
# Trafodaeth Caerffili - Tachwedd 2022

# Beth sy'n bwysig i chi?

## Tabl Cynnwys


Cefndir....2

Beth wnaethom ni ....2

Ymgysylltu wyneb yn wyneb....3

Arolwg ....3

Ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml 3

Canfyddiadau Allweddol ....3

Blaenoriaethau'r Cygor ....4

Graff 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai dyma'r meysydd y dylai'r Cyngor eu blaenoriaethu o hyd wrth gynllunio ein gwasanaethau a'n cyllidebau ar gyfer 2022/23 a thu hwnt?....4

Graff 2: Canran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod y meysydd blaenoriaeth a gafodd eu nodi yn flaenorol gan drigolion yn bwysicach, tua'r un peth neu'n llai pwysig na blwyddyn yn ôl. ....5

Graff 3: Canran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod y meysydd blaenoriaeth a gafodd eu nodi'n flaenorol gan drigolion yn bwysicach, tua'r un peth neu'n llai pwysig na blwyddyn yn ôl. ....6

Beth sy'n bwysig i chi a pham? A oes unrhyw beth ar goll o'r rhestr o flaenoriaethau? ......6

Rhestr o Atodiadau ....9

## Cefndir

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gofyn i'n trigolion, drwy drafodaeth barhaus, pa wasanaethau'r Cyngor sydd bwysicaf iddyn nhw. Yn eu tro maen nhw wedi dweud wrthon ni pa feysydd y maen nhw'n credu y dylwn ni eu blaenoriaethu. Mae'r safbwyntiau hyn yn ein helpu i:

- Parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y materion a effeithiodd fwyaf ar eu hansawdd bywyd
- Llunio ein rhaglen o 10 'adolygiad corfforaethol' ledled y Cyngor sy'n ceisio sicrhau bod y Cyngor mor effeithiol ag y gall fod
- Sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn cyd-fynd â'r hyn sydd ei angen fwyaf ar drigolion

Fel pob cyngor yng Nghymru a ledled y DU, rydyn ni'n wynebu pwysau ar y gyllideb. Er mwyn i ni allu amddiffyn y pethau sydd eu hangen a'u gwerthfawrogi fwyaf, mae angen i'n cymunedau ddweud wrthon ni os ydyn ni'n parhau i fod ar y trywydd iawn – a dweud wrthon ni beth sy'n wirioneddol bwysig iddyn nhw.

Bydd yr adborth a gawn yn bwysig o ran llywio'r gwaith o bennu blaenoriaethau cynghorau ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yn ei dro, sicrhau bod gennym ni gyllideb gytbwys, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud.

## Beth wnaethom ni

Digwyddodd yr ymgysylltiad rhwng 7 Tachwedd a 6 Rhagfyr 2022. Cafodd yr ymgysylltiad ei hyrwyddo'n eang i godi ymwybyddiaeth trwy:

- Datganiad i'r cyfryngau https://www.caerffili.gov.uk/news/news-bulletin/november-2022/%E2%80%8Bwhat-matters-to-you?lang=cy-gb
- Tudalen we bwrpasol sy'n cysylltu'n uniongyrchol o hafan gwefan y Cyngor
- Negeseuon cyfryngau digidol rheolaidd trwy gydol y cyfnod ymgynghori gan gynnwys Facebook, Twitter a NewsOnline (wedi'u hanfon at danysgrifwyr trwy e-bost)
- Posteri a baneri  yn cael eu harddangos mewn llyfrgelloedd a lleoliadau eraill y Cyngor sy'n wynebu'r cyhoedd
- Negeseuon e-bost wedi'u targedu at grwpiau a sefydliadau yn y fwrdeistref

Roedd trigolion yn gallu cymryd rhan a dweud wrthon ni beth oedd yn bwysig iddyn nhw mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### Ymgysylltu wyneb yn wyneb

Cafodd cyfres o sesiynau galw heibio anffurfiol wyneb yn wyneb eu trefnu ar gyfer trigolion ledled y fwrdeistref. Buom hefyd yn siard â thrigolion mewn nifer o ddigwyddiadau. Roedd tair sesiwn ar-lein. Fodd bynnag, ni ofynnodd unrhyw un i fynychu unrhyw un o'r sesiynau ar-lein.

Gweler **Atodiad 1** am yr amserlen o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb a gynlluniwyd.

Ffocws y sgwrs wyneb yn wyneb oedd deall y pethau sydd bwysicaf i breswylwyr a'u teuluoedd. Casglwyd sylwadau ar gerdyn post a ysgogodd breswylwyr i ddweud wrthym y pethau sydd bwysicaf iddynt yn eu bywyd a bywydau eu teulu fel preswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili .

Cafodd canllaw drafod ei pharatoi ar gyfer cydweithwyr sy'n ymgysylltu â thrigolion i ddarparu cyd-destun ac ysgogi cwestiynau ar gyfer cychwyn trafodaeth (gweler **Atodiad 2** ).

### Arolwg

Roedd arolwg ar gael ar wefan y Cyngor. Roedd modd cwblhau'r arolwg ar-lein neu ei argraffu. Roedd copïau o'r arolwg hefyd ar gael o bob llyfrgell ledled y fwrdeistref ac roedd modd eu dychwelyd hefyd trwy lyfrgelloedd neu drwy'r post. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau penagored a chaeedig i gael dealltwriaeth o'r hyn y mae trigolion yn credu y dylai'r Cyngor ei flaenoriaethu yn ogystal â'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw a'u teuluoedd. Ceir copi o'r arolwg yn **Atodiad 3** .

### Ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml

Cafodd unigolion, grwpiau a sefydliadau allweddol ledled y fwrdeistref e-bost uniongyrchol yn gofyn iddyn nhw hyrwyddo a rhannu manylion yr ymgysylltu â'u cysylltiadau/aelodau. Lle'r oedd grwpiau'n teimlo ei fod yn briodol ac yn gallu cynnal sgyrsiau wyneb yn wyneb o fewn yr amserlenni, cafodd y rhain eu trefnu hefyd. Mae **Atodiad 4** yn manylu ar y grwpiau o drigolion a rhanddeiliaid y buom yn cysylltu nhw ac yn nodi lle'r oedd ymgysylltu wyneb yn wyneb.

## Canfyddiadau Allweddol

Cafodd dros **500 o sylwadau** a chyfanswm o **292 o arolygon** wedi'u cwblhau eu derbyn erbyn y dyddiad cau.


*Sylwer: Mae'r data ystadegol sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymatebion arolwg llawn a gafodd eu derbyn ar-lein neu ar bapur. Gall nifer yr ymatebion a gafodd eu derbyn ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr wedi'u cwblhau a*

*gafodd eu dychwelyd. Mae canrannau felly yn seiliedig ar nifer yr ymatebion i gwestiynau unigol (n=nifer yr ymatebion).* ***Er mwyn bod yn gyson ag arolygon blaenorol, dim ond y rhai sydd wedi <u>mynegi barn</u> sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol ac eithrio ymatebion "ddim yn gwybod" neu "gwell gennyf beidio â dweud".***

## Blaenoriaethau'r Cyngor

I'r cyd-destun, yn yr arolwg preswylwyr ar draws y fwrdeistref a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2022, mae **Graff 1** yn dangos lefel uchel o gytundeb â'r rhestr o wasanaethau y dylai'r Cyngor eu blaenoriaethu.

**Graff 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai dyma'r meysydd y dylai'r Cyngor eu blaenoriaethu o hyd wrth gynllunio ein gwasanaethau a'n cyllidebau ar gyfer 2022/23 a thu hwnt?**





Yn yr arolwg cyfredol, roedd gofyn i'r ymatebwyr ystyried a yw'r gwasanaethau hyn yn bwysicach, yr un lefel o bwysigrwydd neu'n llai pwysig iddyn nhw nawr nag yr oedden nhw flwyddyn yn ôl.

Mae **Graff 2** yn amlygu bod y meysydd blaenoriaeth a gafodd eu nodi'n flaenorol gan ein cymunedau yn parhau i fod yn bwysig iddyn nh. Yn yr arolwg presennol, teimlodd 90% neu


fwy o'r rhai a ymatebodd fod gwasanaethau gofal cymdeithasol, diogelwch cymunedol, addysg ac ysgolion, a chynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd yn *bwysicach neu tua'r un peth* ag yr oedden nhw flwyddyn yn ôl.

**Graff 2: Canran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod y meysydd blaenoriaeth a gafodd eu nodi yn flaenorol gan drigolion yn bwysicach, tua'r un peth neu'n llai pwysig na blwyddyn yn ôl.**




Yn yr arolwg blaenorol, roedd gofyn i drigolion ddweud wrthon ni a oedd unrhyw beth ar goll o'r rhestr o flaenoriaethau. Cafodd yr ymatebion penagored eu trefnu â themâu a'u grwpio gyda'i gilydd a gofynnodd yr arolwg cyfredol i drigolion ddweud wrthon ni a oedden nhw'n parhau i deimlo bod y pethau hyn yn bwysig. Mae'r rhestr o flaenoriaethau ychwanegol wedi'i chynnwys yn **Graff 3** ac eto, mae'n dangos lefel uchel o bwysigrwydd ar gyfer y blaenoriaethau a gafodd eu nodi yn flaenorol. Roedd dros 90% yn ystyried swyddi a chyflogaeth a chyfleoedd i fod yn heini *yn bwysicach* neu'r *un peth* â blwyddyn yn ôl.

**Graff 3: Canran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod y meysydd blaenoriaeth a gafodd eu nodi'n flaenorol gan drigolion yn bwysicach, tua'r un peth neu'n llai pwysig na blwyddyn yn ôl.**




## Beth sy'n bwysig i chi a pham? A oes unrhyw beth ar goll o'r rhestr o flaenoriaethau?

Roedd y mwyafrif o'r sylwadau a gafodd eu derbyn trwy ymatebion penagored i'r arolwg a sgyrsiau wyneb yn wyneb yn atgyfnerthu cytundeb ymatebwyr mai'r blaenoriaethau a gafodd eu nodi'n flaenorol yw'r rhai cywir.

Mae'r themâu allweddol a ysgogodd nifer o sylwadau yn cynnwys:

- Yr Amgylchedd
  - Teithio llesol – dylid ei alluogi a'i annog
  - Hyrwyddo bioamrywiaeth – trwy blannu a thorri gwair yn llai aml
  - Newid yn yr hinsawdd – codi ymwybyddiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus lanach
  - Sbwriel a phroblemau amgylcheddol – newid ymddygiad
  - Glanhau strydoedd
  - Lleihau llygredd
  - Gwarchod safleoedd tir llwyd
- Diogelwch cymunedol
  - Ymddygiad gwrthgymdeithasol
  - Goleuadau stryd ( yn arbennig mewn perthynas â diogelwch cymunedol a diogelwch ffyrdd)
- Costau byw
  - Mynd i'r afael â digartrefedd

  - Cymorth ariannol a chymorth i deuluoedd incwm isel mewn argyfwng
  - Cadw'r cynnydd yn treth y cyngor i'r lleiafswm
  - Tlodi bwyd / prydau ysgol am ddim
  - Llochesi cynnes (cafodd y lyfrgelloedd eu cyfeirio atyn nhw)
- Gwasanaethau cwsmeriaid – mynediad hwylus at wasanaethau, mynediad at wasanaethau ar-lein ond nid yw pawb wedi'u galluogi'n ddigidol
- Addysg ac ysgolion
- Gofal Iechyd
- Tai
  - Tai digonol o ansawdd, cost isel
  - Sicrhau bod isadeiledd ategol ar waith wrth adeiladu cartrefi
- Swyddi a chyflogaeth – cyflogau ddim yn cynyddu yn unol â'r pwysau ariannol presennol
- Llyfrgelloedd – mannau diogel, cynnes, sy'n hanfodol i frwydro yn erbyn arwahanrwydd cymdeithasol – yn ogystal â'r gweithgareddau sydd ar gael a mynediad at lyfrau
- Cyfleoedd i fod yn heini yn gorfforol ac yn feddyliol
  - Cymorth iechyd meddwl
  - Atal arwahanrwydd cymdeithasol
  - Canolfannau hamdden
  - Parciau a mannau gwyrdd – fel ffordd o gynorthwyo lles meddyliol a chorfforol yn ogystal â chyfrannu at
- Cymorth i'r trydydd sector a hyrwyddo gwirfoddoli i gefnogi pobl ddiamddiffyn
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Cynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd
- Diogelwch ffyrdd
  - Parcio anghyfreithlon (mewn perthynas â diogelwch ffyrdd, materion hygyrchedd gyda pharcio ar y palmant
- Twristiaeth/digwyddiadau
- Gwelliannau canol tref, cymorth i fusnesau
- Casglu gwastraff ac ailgylchu - mae trigolion yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth presennol ac yn gwerthfawrogi symlrwydd y system ailgylchu sydd mewn lle er bod awgrymiadau ar gyfer casgliadau gwastraff yn llai aml. Nodwyd casgliadau a fethwyd gan rai.
- Darparu gwasanaethau i bobl ifanc a phlant
- Cymorth i drigolion agored i niwed yn benodol, plant ac oedolion ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol, cyn-filwyr a'r rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl
- Pwysigrwydd llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden a gwasanaethau lleol eraill
- Cymorth i'r trydydd sector i'w galluogi i gynorthwyo trigolion agored i niwed

Yn ogystal, cafodd y meysydd canlynol eu hamlygu fel ffyrdd y gallai'r Cyngor wneud pethau'n wahanol:

- Canolbwyntio ar wasanaethau hanfodol a gwneud y pethau sylfaenol yn dda
- Cyfathrebu â thrigolion a gwrando arnyn nhw - pwysigrwydd sicrhau bod trigolion yn cael dweud eu dweud a bod y Cyngor yn gwrando ac yn gweithredu ar farn wrth wneud penderfyniadau
- Cynhwysiant a hygyrchedd gwasanaethau – gan gynnwys trafnidiaeth hygyrch
- Cymuned leol – pwysigrwydd cymunedau lleol cefnogol, teulu a ffrindiau,
- Effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau – gweithredu fel tystiolaeth o adolygiadau gwasanaeth, gwneud y newidiadau. Cymryd agwedd gydgysylltiedig .
- Adolygu rheolwyr canol ac uwch, blaenoriaethu recriwtio staff rheng flaen
- Defnydd o gronfeydd wrth gefn
- Treth y cyngor
- Rhesymoli asedau – lleihau nifer yr adeiladau a gwneud defnydd llawn o'r rhai a gynhelir gan gynnwys at ddefnydd cymunedol
- Cynhyrchu incwm – codi tâl am wasanaethau, parcio ceir a chosbau am ollwng sbwriel, parcio anghyfreithlon ac ati

Ceir crynodeb llawn o'r sylwadau o'r arolwg a'r ymgysylltu wyneb yn wyneb (wedi'i olygu) yn **Atodiad 5.**

## Rhestr o Atodiadau

**Atodiad 1: Ymgysylltu wyneb yn wyneb**

**Atodiad 2: Canllaw trafod**

**Atodiad 3: Arolwg**

**Atodiad 4: Grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml**

**Atodiad 5: Crynhoad o ymatebion penagored i'r arolwg a sylwadau o sgyrsiau wyneb yn wyneb**